**Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol HSS-16-01(p.2)**

**Dyddiad:** **21 Tachwedd 2001**
**Lleoliad:** **Ystafell Bwyllgora 3, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol**
**Teitl:** **Tasglu'r Strategaeth Genedlaethol Gofal Plant**

**Diben**

1. Gwahodd y Pwyllgor i fynegi barn am adroddiad y Tasglu Strategaeth Genedlaethol Gofal Plant, a gomisiynwyd gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

**Amseriad**

2. Mae'r adroddiad yn cael ei gyflwyno gerbron y Pwyllgor yn awr, cyn ei drafod yn y cyfarfod llawn ar 4 Rhagfyr 2001.

**Cefndir**

3. Dyluniwyd y Strategaeth Genedlaethol Gofal Plant yng Nghymru i ddiwallu anghenion plant, rhieni a darparwyr gofal plant yng Nghymru. Nodau'r strategaeth yw hybu lles plant yng Nghymru, cynnig cyfleoedd cyfartal i rieni, yn enwedig merched, a chefnogi rhieni wrth gydbwyso bywyd teuluol, gwaith, addysg a hyfforddiant.

4. Sefydlwyd y Tasglu Gofal Plant gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ym mis Chwefror 2001 i ddatblygu cynllun gweithredu newydd i fwrw ymlaen â'r strategaeth gofal plant. Roedd yr aelodau (a restrir yn Atodiad A sydd ynghlwm wrth Ddogfen 1) yn cynnwys cynrychiolwyr allweddol o faes gofal plant yng Nghymru, a fu'n gofyn am farn pobl ar lefel leol hefyd.

5. Mae'r Tasglu wedi gweithio ochr yn ochr â Phanel Ymgynghorol Blynyddoedd Cynnar y Cynulliad, sy'n gweithredu ymrwymiad y Cynulliad i gynnig addysg gynnar am ddim i'r holl blant tair oed, am hanner diwrnod yn ystod y tymor ysgol. Mae rhai argymhellion i'r Cynulliad gan y ddau gorff yn rhai cyffredin, fel y cynigion ar gyfer sefydlu canolfannau plant integredig.

6. Bydd y Pwyllgor yn nodi o gyflwyniad yr adroddiad bod y Tasglu wedi gweithio drwy gyfrwng pum is-grwp, gyda phob un ohonynt wedi cyfrannu pennod i'r adroddiad hwn. Mae'r penodau hyn yn amlinellu'r heriau sy'n wynebu'r Strategaeth Gofal Plant, ac yn gwneud argymhellion ar gyfer y tymor byr a'r tymor hir.

**Cydymffurfio**

7. Mae Deddf Cyflogaeth a Hyfforddiant 1973 yn darparu'r sail statudol ar gyfer taliadau grant i awdurdodau lleol i alluogi'r Partneriaethau Gofal Plant a Datblygu Blynyddoedd Cynnar weithredu amcanion y Strategaeth Genedlaethol Gofal Plant yng Nghymru. Mae pwerau'r Cynulliad yng nghyswllt hyn wedi'u dirprwyo i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithaol sydd â chyfrifoldeb am ofal plant.

8. Nid oes unrhyw ystyriaethau rheoleidd-dra na phriodoldeb, nac unrhyw faterion newydd na dadleuol. Ymgynghorwyd â Swyddfa Cydymffurfio'r Cynulliad ynghylch y cyflwyniad hwn ac mae'n fodlon â'r agweddau cydymffurfio.

**Goblygiadau Ariannol**

9. Dim ar y cam hwn – gwahoddir y Pwyllgor i nodi'r papur a'r adroddiad. Byddai gweithredu'r adroddiad yn golygu cost, a fyddai'n cael ei ysgwyddo'n bennaf gan yr arian ar gyfer y strategaeth gofal plant genedlaethol, a nodwyd yn y gyllideb ddrafft a amlinellir isod:

**Strategaeth Genedlaethol Gofal Plant**

£'000

**2001/2002 3,550**

**2002/2003 5,050**

**2003/2004 5,550**

10. Fis Rhagyfr diwethaf, cynigiodd y ddogfen ymgynghori *Fframwaith ar gyfer Partneriaeth*, y dylid cyfuno'r arian ar gyfer y Strategaeth Gofal Plant a'r Gronfa Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc (yn cynnwys y Grant Chwarae a'r Fenter Mynediad Ieuenctid) a Chychwyn Cadarn yn un Gronfa Cefnogi Plant. Gwneir cyhoeddiad pellach ynghylch hyn yn gynnar yn 2002.

**Gweithredu**

11. Gwahoddir y Pwyllgor i gyflwyno ei farn am adroddiad y Tasglu Strategaeth Genedlaethol Gofal Plant.

**Jane Hutt**

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Pwynt cyswllt:**

Chris Burdett, Is-adran Plant a Theuluoedd, Estyniad: 3936.